Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ffordd Dyffryn
# Ffordd Dyffryn
# Llandudno
# Conwy
# LL30 2LZ

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Ffordd Dyffryn ar ochr orllewinol tref Llandudno yng Nghonwy. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal gyfagos, er y daw lleiafrif bach o ddisgyblion o ardaloedd eraill o'r dre.

Mae 135 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 15 o blant meithrin sy'n mynychu yn y prynhawniau'n unig. Disgrifia'r ysgol ei dalgylch fel un dan anfantais economaidd. Mae hawl gan ryw 39% o ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Nododd yr ysgol bod gan tua 32% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig gan yr un disgybl. Mae uned gyfeirio ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen sydd â phroblemau ymddygiad yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae saith o ddisgyblion yn yr uned. Daw'r mwyafrif o'r disgyblion hyn o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Saesneg yw iaith gartref yr holl ddisgyblion bron. O Dachwedd 2012, mae'r ysgol yn addysgu 25% o wersi yng nghyfnod allweddol 2 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn Rhagfyr 2006 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol. Ar hyn o bryd, mae pennaeth dros dro a dirprwy bennaeth dros dro yn yr ysgol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ffordd Dyffryn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,757 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy £13,941 a'r isafswm yw £2,935. Mae Ysgol Ffordd Dyffryn yn yr 17eg safle o'r 61 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn methu cyflawni safonau digon uchel o gymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill;
- bod perfformiad bechgyn yn sylweddol is na pherfformiad merched;
- bod y ddarpariaeth yn aneffeithiol ar gyfer datblygu medrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol; a
- bod yr amrywiaeth gyfyngedig o brofiadau dysgu yn methu cwmpasu ystod ofynnol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn ddigonol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- er bod y pennaeth dros dro wedi cychwyn gwneud gwelliannau'n gyflym mewn ychydig o agweddau ar waith yr ysgol, mae'r uwch dîm arweinyddiaeth presennol wedi bod yn gweithredu am gyfnod rhy fyr i fod wedi pennu a chynnal gweledigaeth strategol ar gyfer yr ysgol;
- bod uwch arweinwyr a llywodraethwyr heb fynd i'r afael â'r safonau isel a gyflawnir gan ddisgyblion;
- bod y prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella heb fod yn ddigon trwyadl;
- bod tystiolaeth annigonol y bydd cynlluniau gwaith a chynlluniau athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau allweddol yn effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol;
- bod llywodraethwyr yn methu dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon cadarn ac nad ydynt yn deall eu dyletswyddau statudol yn llawn; a
- bod yr ysgol heb fodloni pob un o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

A2 Gwella’r cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau allweddol disgyblion ar draws y cwricwlwm.

A3 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

A4 Darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith yr ysgol sy’n hyrwyddo disgwyliadau uchel gan bawb.

A5 Gwella effeithiolrwydd y corff llywodraethol.

A6 Rhoi system drylwyr o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar waith sy’n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon.  Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sydd islaw'r rheini a ddisgwylir ar gyfer plant o'u hoed. Mae'r deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn sylweddol islaw'r rhai a gyflawnir gan ysgolion ledled Cymru sy'n wynebu lefelau her tebyg. Ym maes iaith, llythrennedd a chyfathrebu mae'r tangyflawniad yn fwyaf nodedig.

Yn y gwersi a arsylwyd ac yn eu gwaith, cynnydd cyfyngedig mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei wneud o ran datblygu medrau allweddol, sef llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n fedrus ar gyfer prosesu geiriau, ond ychydig o ddilyniant mae gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ei ddangos. Mae medrau datrys problemau disgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llefaredd da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn wrandawyr da, ac yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae'r mwyafrif ohonynt yn darllen yn rhugl ac yn gywir, er bod canlyniadau profion yn dangos bod galluoedd darllen sylweddol islaw hynny a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran gan ormod o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion yn wannach nag mewn ysgolion tebyg. Er bod cyrhaeddiad cyffredinol wedi amrywio, nid yw'r ysgol wedi perfformio gystal ag ysgolion eraill yn gyson mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y dangosydd pwnc craidd. Mae cyrhaeddiad yn y rhan fwyaf o feysydd ymhlith yr isaf yn ei theulu o ysgolion, ac er 2008, ni welwyd unrhyw duedd glir o wella yn unrhyw un o'r mesurau hyn.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, er nad yw mwyafrif yn rhan isaf cyfnod allweddol 2 yn gallu cofio tablau'n gyflym ac maent yn betrusgar wrth wneud cyfrifiadau pen syml. Mae llawer o ddisgyblion nad ydynt yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigonol mewn pynciau heblaw am fathemateg. Nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau datrys problemau'n dda.

Mae agweddau'r disgyblion at Gymru a dysgu Cymraeg yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae medrau dwyieithog a Chymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu ysgrifennu'n briodol ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gallu darllen gyda mynegiant a chynnal sgwrs syml yn Gymraeg gan ddefnyddio'r eirfa a'r gystrawen a ddysgwyd ganddynt yn flaenorol.

Nid yw perfformiad bechgyn gystal â'r merched ar draws yr ysgol. Ar y lefel uwch (lefel 5) y mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng eu perfformiad, a phrin y bydd bechgyn yn cyrraedd y lefel honno. Nid yw llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu

ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn gwneud cynnydd digonol. Yn y ddwy flynedd diwethaf, fe wnaeth disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim berfformio'n sylweddol islaw disgyblion eraill.

Mae craffu ar waith yn llyfrau'r disgyblion yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Fodd bynnag, nid ydynt yn mynd ati'n ddigon da i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Ychydig o dystiolaeth sydd fod disgyblion yn datblygu'r dechneg o ddrafftio, prawfddarllen a gwella'u gwaith o ganlyniad i hyn. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6, gan gynnwys y rhai mwy galluog, yn sillafu geiriau'n gywir. Nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn cynhyrchu digon o ddarnau ysgrifenedig estynedig.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus ac yn credu bod eu hysgol yn lle diogel lle gallant fynd at y staff os oes ganddynt unrhyw bryderon. Dywedant fod digwyddiadau o fwlio'n brin iawn. Mae presenoldeb yn dda ac yn cymharu'n dda â phresenoldeb ysgolion eraill, ond mae yno ychydig o ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd. Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyd iach ac ymarfer corff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud dewisiadau priodol ynglŷn â'u dysgu eu hunain a dewisant o amrywiaeth o brofiadau ysgogol. Er bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn gyffredinol a'u bod yn awyddus i ddysgu, nid yw llawer ohonynt wedi datblygu'r medrau sydd eu hangen eto i wella'u dysgu eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr uned gyfeirio yn gwneud cynnydd da iawn o ran rheoli'u hymddygiad eu hunain. Fodd bynnag, er bod ymddygiad yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol, mae pump o ddisgyblion wedi'u gwahardd am gyfanswm o 12 diwrnod dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw hyn yn cymharu'n dda â'r sefyllfa mewn ysgolion tebyg.

Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig, ond mae'n dibynnu ar staff i weithredu'n effeithiol. Mae'n trefnu digwyddiadau codi arian ar gyfer elusennau, ac yn cyfrannu at adnoddau ychwanegol, fel y wal ddringo ar yr iard chwarae.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn ddigonol, ac mae'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol medrau wedi'i ddatblygu'n llawn. Nid yw'r profiadau dysgu a ddarperir yng nghyfnod allweddol 2 yn cwmpasu ystod ofynnol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn ddigonol, ac mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau allweddol disgyblion yn wan.

Nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn diwallu anghenion gwahanol yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai mwy galluog. Cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion ddefnyddio’u medrau allweddol, sef rhifedd, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm yn ystod cyfnod allweddol 2.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg yn briodol. Mae’r athrawon yn defnyddio Cymraeg yn achlysurol yn y rhan fwyaf o’r gwersi, ac maent yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o hanes, daearyddiaeth, diwylliant a cherddoriaeth Cymru’n effeithiol.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sy’n cynnwys dawnsio gwerin a chôr. Mae cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn galluogi disgyblion i wella’u defnydd o’r Gymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth.

Mae darpariaeth dda gan yr ysgol ar gyfer ailgylchu ac mae’n datblygu medrau’r disgyblion yn dda o ran tyfu llysiau. Mae’r disgyblion yn dysgu am ddiwylliannau eraill fel rhan o’u gwaith mewn daearyddiaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ond cyfyngedig yw’r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft, trwy gyswllt neu brosiectau cydweithredol gydag ysgolion eraill y tu allan i’r DU.

**Addysgu: Digonol**

Mae bron pob un o’r athrawon a’r staff cymorth yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn dda yn eu gwersi. Mae’r athrawon yn defnyddio strategaethau priodol i annog ymddygiad da disgyblion. Maent yn canmol y disgyblion yn effeithiol i wella’u hyder.

Yn y rhan fwyaf o wersi lle mae’r addysgu’n fwyaf effeithiol, mae perthynas dda gan yr athrawon â’r disgyblion. Maent yn cynllunio gwersi ac yn trefnu’u dosbarthiadau’n effeithiol, yn gwneud defnydd da o’r staff cymorth, yn rhannu amcanion dysgu â’r disgyblion ac mae disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a dysgu. Mewn lleiafrif o wersi, mae’r addysgu’n llai effeithiol; nid yw athrawon yn cynllunio’u gwersi’n ddigon da. Disgwyliadau isel sydd ganddynt o’r disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o’r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gydwybodol, ond nid ydynt bob amser yn nodi’n glir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella. Mae targedau unigol gan y disgyblion hŷn i wella’u gwaith. Fodd bynnag, pan ofynnir iddynt, nid yw pawb yn cofio beth yw’r rhain, ac felly nid ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Yn ystod y gwersi a arsylwyd, mae llawer o athrawon yn cynllunio’n effeithiol i ddarparu gweithgareddau i bob un o’r disgyblion sy’n cydweddu i’w gallu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn amlwg bob amser yng ngwaith blaenorol y disgyblion.

Mae’r athrawon yn asesu ac yn olrhain cynnydd unigolion a grwpiau’u rheolaidd. Mae’r rhan fwyaf yn cynnwys disgyblion yn briodol wrth asesu ansawdd eu gwaith mewn llawer o wersi. Fodd bynnag, mae’r arfer hon yn amrywio gormod rhwng dosbarthiadau. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn cynnwys llawer o wybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r trefniadau ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol, foesol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion yn cyfranogi mewn gweithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd sy'n cyfrannu'n dda at eu datblygiad ysbrydol. Mae asiantaethau allanol, fel y gwasanaethau cymdeithasol a staff meddygol, yn gweithio'n dda â rhieni a'r staff i ddiwallu anghenion y disgyblion. Mae'r ysgol yn mynd ati i hybu byw'n iach a pharch ar y ddwy ochr.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn achosi unrhyw bryder. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer atal bwlio ac aflonyddu.

Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad yn yr uned gyfeirio yn y Cyfnod Sylfaen. Mae pob un o'r staff yn y dosbarth hwn yn deall anghenion y disgyblion yn dda iawn. Maent yn fedrus o ran darparu cymorth effeithiol sy'n cydweddu'n fanwl ag anghenion y disgyblion. Mae hyn yn galluogi unigolion i wneud cynnydd da, newid eu hymddygiad a mynd yn ôl i ddosbarthiadau prif ffrwd dros gyfnod priodol.

Annigonol yw'r cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion nad yw eu cyrhaeddiad yn unol â'r disgwyliadau drwy asesiadau athrawon a phrofion safonedig. Fodd bynnag, nid oes digon o ymyriadau priodol ar waith i gynorthwyo'r dysgwyr hyn a'u helpu i ddal i fyny. Nid yw'r ychydig o ymyriadau sydd ar waith yn mynd i'r afael yn ddigon da ag anghenion penodol disgyblion. O ganlyniad, nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud digon o gynnydd.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n trin pob disgybl yn deg. Mae uwch arweinwyr wedi creu synnwyr o ddiben ac ysbryd tîm o'r newydd, ac mae pob aelod o staff a phob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae digon o adnoddau i gyflwyno'r cwricwlwm ac i ddarparu ar gyfer yr ystod eang o anghenion disgyblion. Mae'r ystafelloedd eang yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol gydag arddangosiadau lliwgar a pherthnasol ar y waliau. Mae'r uned gyfeirio yn cynnig amgylchedd ysgogol lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac amgylchedd sy'n addas i ddysgu. Mae'r ysgol yn ddiogel ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae'r disgyblion wedi helpu datblygu gardd synhwyraidd sy'n gwella'r ardal ddysgu yn yr awyr agored, ac mae'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar feysydd o'r cwricwlwm, fel gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth dros dro a benodwyd yn ddiweddar, gyda chymorth y dirprwy bennaeth dros dro, yn dechrau cynnig synnwyr o ddiben a chyfeiriad cyffredin i'r ysgol. Gyda'i gilydd, maent wedi rhoi ychydig o fentrau perthnasol ar waith sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar forâl y staff. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi mynd i'r afael eto â'r safonau isel a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol, ond nid oes ganddynt gysylltiadau ffurfiol â'r athrawon, y dosbarthiadau na phynciau'r cwricwlwm. Maent yn cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad y disgyblion, ond nid ydynt yn dadansoddi data'n ddigon da nac yn herio arweinwyr yn briodol i godi cyrhaeddiad y disgyblion. Cyfyngedig yw cyfranogiad y corff llywodraethol yn y broses o arfarnu ansawdd bywyd a gwaith yr ysgol a sut mae'n cymharu ag ysgolion tebyg, ac mae'n cynnig cyfeiriad strategol gwan i'r ysgol. Nid yw'r corff llywodraethol yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon cadarn ac nid yw'n cyflawni'i ddyletswyddau statudol.

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi rhoi ychydig o fentrau ar waith yn dda, fel y Cyfnod Sylfaen a'r clwb brecwast. Dim ond yn ddiweddar y mae'r athrawon wedi datblygu dull cydlynus o gyflwyno'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 sy'n ystyried medrau allweddol a medrau meddwl y disgyblion. Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â mentrau cenedlaethol, fel y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r cynllunio ar gyfer gwella wedi bod yn wan. Nid yw'r ysgol wedi arfarnu ei chryfderau a meysydd i'w datblygu yn rheolaidd ac yn systematig. Nid yw'r gweithdrefnau hunanarfarnu'n ddigon trwyadl. O ganlyniad, ychydig iawn o effaith maent wedi'i chael ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion neu ar bennu blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

Fe wnaeth y prosesau hunanarfarnu a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y pennaeth dros dro nodi bod lefel cyrhaeddiad disgyblion yn rhy isel. Fodd bynnag, wrth ystyried agweddau eraill ar fywyd a gwaith yr ysgol, mae'r adolygiad yn disgrifio'r ddarpariaeth gormod heb arfarnu ei heffaith a'i heffeithiolrwydd. Nid yw'r arweinwyr a'r rheolwyr yn defnyddio digon o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu pa mor dda mae'r ysgol yn gwneud, fel arsylwi'r addysgu a monitro gwaith disgyblion. Dim ond yn ddiweddar y mae athrawon wedi mynd ati i hunanarfarnu pynciau, ac nid yw hyn wedi arwain at gynlluniau ar gyfer gwella ar hyn o bryd.

Nid yw cynlluniau datblygu'r ysgol yn ddigon penodol ac nid ydynt yn cynnwys meini prawf mesuradwy ar gyfer barnu'u llwyddiant. Mae'r cynlluniau'n dynodi ffynonellau i gynorthwyo â chyflawni'r targedau, ond nid yw arweinwyr yn adolygu cynnydd tuag at y targedau hynny'n ddigon rheolaidd. Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf.

Dim ond cynnydd cyfyngedig mae'r ysgol wedi'i wneud o ran sefydlu rhwydweithiau o arfer broffesiynol. Mae yna bartneriaethau defnyddiol gydag ystod o ysgolion cynradd lleol ac mae rhai athrawon wedi ymweld ag ysgolion eraill yn ddiweddar i arsylwi arfer dda mewn llythrennedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda gydag ystod eang o bartneriaid defnyddiol, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, cwnselwyr profedigaeth a'r clwb ieuenctid lleol. Mae yna bartneriaethau cymunedol defnyddiol, ac mae'r disgyblion yn elwa o weithio gyda chymdeithas tai leol i ddatblygu'r ardaloedd awyr agored. Er bod cyflwyno cofnodion dysgu yn ddiweddar wedi gwella'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a chartrefi, nid yw partneriaeth yr ysgol gyda rhieni wedi'i datblygu'n ddigonol yn gyffredinol.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol gyfun leol yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hwylus i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg, ac mae'n cadarnhau dibynadwyedd asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r ysgol mewn perthynas â materion ariannol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth gyda'r awdurdod lleol wrth sicrhau gwelliant i'r ysgol wedi arwain at safonau gwell.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a chynorthwywyr ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Caiff y rhan fwyaf ohonynt eu defnyddio'n effeithiol, er nad yw'r cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn cael ei drefnu'n effeithlon.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn helpu rhoi darpariaeth arbenigol i'r disgyblion mewn cerddoriaeth a drama. Mae'r pennaeth dros dro wedi adfer systemau rheoli perfformiad yr ysgol, gyda thargedau sy'n canolbwyntio ar godi safonau mewn rhifedd a llythrennedd. Tan yn ddiweddar, nid yw'r ysgol wedi nodi anghenion datblygiadol staff yn briodol. O ganlyniad, nid oes medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol a diweddar gan lawer o aelodau'r staff i gyflawni'u rolau'n llawn.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau i'r disgyblion, ac fe'u defnyddir yn dda i hyrwyddo'r dysgu. Mae gwariant yn parhau o fewn y gyllideb. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr yn deall eu rôl statudol yn llawn mewn perthynas â rheolaeth ariannol a phenodi staff. Nid yw'r cysylltiad rhwng gwariant a'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol yn glir.

Oherwydd y safonau cymharol isel a gyflawnir a'r gwendidau sylweddol yn narpariaeth yr ysgol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, a Dangosydd y Cyfnod Sylfaen, yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion ar draws Conwy a Chymru. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6), er ei bod islaw cyfartaledd ysgolion eraill ledled Cymru, yn nes at y cyfartaledd hwnnw. Perfformiad yr ysgol yw'r ail isaf yn ei theulu o ysgolion, sef grŵp o ysgolion yr ystyrir eu bod yn wynebu heriau tebyg. O gymharu ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol wedi perfformio'n gyson is, ac mae yn y 25% isaf o ysgolion. Mae bechgyn yn perfformio'n sylweddol islaw merched yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu, er bod bechgyn, o ran y deilliant uwch na'r disgwyl (deiliant 6), yn cyflawni'n well na'r merched.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaenol yn 2012, mae canran gyffredinol y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. O ran y deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6), fe wnaeth y bechgyn gyflawni'n well na'r merched mewn datblygiad mathemategol.

Nid yw canlyniadau'r ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cymharu'n dda â chanlyniadau ysgolion yn ei theulu, yng Nghonwy a ledled Cymru. Er y bu amrywiaethau bach er 2007-2008, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg yn gyson mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y dangosydd pwnc craidd (yn cyrraedd o leiaf y lefel 4 ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc). O gymharu ag ysgolion eraill yn ei theulu, yn yr awdurdod lleol ac yng Nghymru, mae perfformiad yr ysgol ymhell islaw'r cyfartaledd yn gyson mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw duedd o wella. Mae patrwm cyson sy'n dangos bod cyrhaeddiad merched yn sylweddol uwch na chyrhaeddiad bechgyn. Ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5), mae perfformiad ysgol ar y cyfan yn sylweddol is nag ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng merched a bechgyn yn mynd yn fwy ar y lefel uwch (lefel 5), gyda bechgyn yn methu'n gyson â chyrraedd uwchlaw lefel 4.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i holiaduron dysgwyr**

Fe wnaeth chwe deg pedwar o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 lenwi'r holiadur.

Dywed pob un o'r disgyblion bron eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae bron pob un yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Dywedant fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Dywed pob un o'r disgyblion fod yr ysgol yn eu haddysgu i gadw'n iach, ac mae bron pawb yn dweud eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd.

Dywed y rhan fwyaf o'r disgyblion eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i wneud cynnydd. Maent yn gwybod pwy i ofyn iddo/iddi am help os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae bron yr holl ddisgyblion o'r farn bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol. Mae bron pawb yn cytuno bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith.

Dywed y rhan fwyaf o'r plant fod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio, a dywed llawer ohonynt fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae barnau'r disgyblion fwy neu lai yr un fath â barnau disgyblion eraill mewn ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

**Ymatebion i'r holiaduron rhieni**

Nid oes unrhyw sylwadau ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sarah Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Chris Dolby | Arolygydd Tîm |
| Susan Owen | Arolygydd Lleyg |
| Helen Morgan- Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ruth Threadgold | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.